
Diweddariad monitro blynyddol ar y farchnad bost

Y flwyddyn ariannol 2016-17

Diweddariad ar y farchnad

Dyddiad Cyhoeddi: 23 Tachwedd 2017

Gair am y ddogfen hon

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y prif ddata a phatrymau yn y sector post yn ystod y flwyddyn ariannol 2016-17. Mae'r fframwaith rheoleiddio a roddodd Ofcom ar waith ym mis Mawrth 2012, ac a adolygodd ym mis Mawrth 2017, yn cyflawni ein dyletswydd statudol o sicrhau gwasanaeth post cyffredinol, gan ystyried effeithlonrwydd a chynaliadwyedd ariannol. Mae trefn fonitro barhaus ac effeithiol yn dal i fod yn un o'r prif ffyrdd o ddiogelu'r fframwaith rheoleiddio, ochr yn ochr â mwy o ryddid prisio i'r Post Brenhinol.

Mae'r ddogfen hon, yn ogystal ag amrywiaeth gynyddol o ddata rhyngweithiol, yn rhan o'n chweched diweddariad monitro blynyddol ar y sector post. Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar chwe phrif faes: cydymffurfiaid y Post Brenhinol â'r rheoliadau; profiad defnyddwyr a busnesau bach o'r gwasanaethau post; y farchnad llythyrau; y farchnad parseli; a pherfformiad ariannol ac effeithlonrwydd Busnes y Post Brenhinol. Mae'r Busnes yn rhan o fusnes y Post Brenhinol sy'n gyfrifol am y gwasanaeth cyffredinol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Post Brenhinol gasglu a dosbarthu llythyrau a pharseli am nifer sylfaenol o ddiwrnodau'r wythnos, am bris fforddiadwy ac unffurf, i'r holl gyfeiriadau yn y DU.

Cynnwys

Adran

1. Crynodeb Gweithredol

1

1. Crynodeb Gweithredol

- 1.1 Dyma ein chweched diweddariad monitro blynyddol ar y farchnad bost.
- 1.2 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y prif feysydd y dywedon ni ym mis Mawrth 2012 fyddai ffocws ein trefn fonitro, ac mae hefyd yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y metrigau cyflwr ariannol a nodwyd yn ein Hadolygiad o'r Broses o Reoleiddio'r Post Brenhinol ym mis Mawrth 2017 (Datganiad Mawrth 2017).¹ Mae hefyd yn cynnwys y prif ddata a phatrymau yn y sector post yn ystod y flwyddyn ariannol 2016-17.
- 1.3 Oni nodir yn wahanol, mae'r metrigau yn y diweddariad hwn yn gyson â'r rhai yn ein diweddariad monitro blynyddol ar y farchnad bost 2015-16, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2016² (sy'n ein galluogi i wneud cymariaethau o un flwyddyn i'r llall). Tra bod y mwyafrif o'r dadansoddiad yn yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar 2016-17, mae'r wybodaeth prisiau yn canolbwyntio ar y data priso diweddaraf sydd ar gael (h.y. 2017-18), sy'n cydfynd gyda'r diweddariadau monitro blaenorol.
- 1.4 Mae'r diweddariad monitro blynyddol hwn yn cynnwys yr adroddiad a'r data rhyngweithiol cysylltiedig sydd ar gael ar wefan Ofcom.³ Mae data a gyflwynir yn y diweddariad monitro blynyddol ar gael ar ffurf ffeiliau csv ar wefan Ofcom.⁴

Cydymffurfio â'r rheoliadau

- 1.5 Mae'r Post Brenhinol yn gorfod rhoi cap diogelu ar bris stampiau Ail Ddosbarth ar gyfer llythyrau, llythyrau mawr a pharseli hyd at 2kg, i sicrhau bod defnyddwyr yn gallu cael gafael ar wasanaeth post cyffredinol sy'n fforddiadwy. Mae'r capiau'n atal y Post Brenhinol rhag codi prisiau'n uwch na chwyddiant, yn ôl yr hyn a fesurir gan y CPI.⁵ Roedd y cynnydd ym mhrisiau'r Post Brenhinol ar gyfer 2017-18 yn cydymffurfio â'r capiau diogelu hyn. Roedd y cynnydd ym mhrisiau'r Post Brenhinol ar gyfer cynnyrch unigol yn 2017-18 fwy neu lai yn gyson â'r cynnydd mewn prisiau yn 2016-17 mewn termau nominal. Ond, mewn termau real, disgyn wnaeth y prisiau i ddefnyddwyr, gan fod y cynnydd ym mhrisiau'r Post Brenhinol yn is na chyfradd chwyddiant.
- 1.6 Ar y cyfan, gwella wnaeth ansawdd gwasanaeth y Post Brenhinol yn 2016-17 o'i gymharu â'r llynedd. Roedd ei berfformiad yr un fath â 2015-16, neu'n well, ar gyfer saith allan o'r wyth mesur ansawdd gwasanaeth. Ond, er gwaethaf y gwelliant hwn, ni lwyddodd i

¹ Ofcom, *Adolygu'r Broses o Reoleiddio'r Post Brenhinol*, 1 Mawrth 2017,

https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0033/97863/Review-of-the-Regulation-of-Royal-Mail.pdf

² Ofcom, *Diweddariad monitro blynyddol ar y farchnad bost*, 30 Tachwedd 2016,

https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0029/94961/2015-16-Annual-Report.pdf

³ https://www.ofcom.org.uk/postal-services/information-for-the-postal-industry/monitoring_reports/interactive-data-2016-2017

⁴ https://www.ofcom.org.uk/cymru/postal-services/information-for-the-postal-industry/monitoring_reports/interactive-data-2016-2017

⁵ Mae'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr, neu CPI, yn mesur chwyddiant ac yn mesur newidiadau mewn lefelau prisiau basged o nwyddau a gwasanaethau y mae cartrefi yn eu prynu.

gyrraedd y targedau ansawdd gwasanaeth ar gyfer Ardal Cod Post (PCA⁶), llwybrau dosbarthu a gwblhawyd, a Danfon Arbennig⁷ a hynny o drwch blewyn. Mae cydymffurfiad y Post Brenhinol â'i rwymedigaethau ansawdd gwasanaeth yn bwysig iawn i ni. Byddwn yn parhau i gadw llygad manwl ar ei berfformiad. Petai'r Post Brenhinol yn methu â bodloni ei rwymedigaethau rheoleiddio yn y dyfodol, gallai wynebu cosbau ariannol.

- 1.7 Roedd nifer y cwynion a dderbyniodd y Post Brenhinol wedi codi 3% o'i gymharu â'r llynedd. Er mai eitemau sydd wedi mynd ar goll yw'r rheswm mwyaf cyffredin dros gwyno, cwynion am ddifrod a chwynion cyffredinol, yn ogystal â chategori cwyno newydd - gwadu derbyn - sy'n bennaf gyfrifol am y cynnydd yn nifer y cwynion. Gweler Adran Tri am ragor o fanylion.

Profiad Defnyddwyr a Busnesau o'r Gwasanaethau Post

- 1.8 Mae ein gwaith ymchwil yn nodi bod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr preswyl yn fodlon â'r gwasanaethau post yn gyffredinol (86%) a'r Post Brenhinol (84%), sy'n eithaf tebyg i ffigurau a gofnodwyd yn y gorffennol. Mae tri chwarter y defnyddwyr preswyl yn fodlon â gwerth am arian y gwasanaethau post yn gyffredinol. Hefyd, mae mwy nag wyth o bob deg o fusnesau bach a chanolig sy'n defnyddio'r Post Brenhinol (81%) wedi dweud eu bod yn fodlon, gyda bron i naw o bob deg o fusnesau bach a chanolig (87%) a oedd yn defnyddio darparwyr eraill yn dweud eu bod yn fodlon.
- 1.9 Mae ein gwaith ymchwil hefyd yn datgelu newidiadau yn y ffordd y mae defnyddwyr preswyl a busnesau bach a chanolig yn defnyddio gwasanaethau post. Dywedodd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr preswyl na fu unrhyw newid o ran pa mor aml yr oeddent yn anfon post yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Ond, roedd cyfran y rhai hynny a oedd yn dweud eu bod yn anfon llai na'r hyn oeddent ddwy flynedd yn ôl yn uwch na'r gyfran a oedd yn dweud eu bod yn anfon mwy, ac eithrio yng nghyswllt post y mae modd ei olrhain.
- 1.10 Wrth anfon llythyrau, gwarantu danfon, cost isel a phrisiau unffurf ar draws y DU oedd y ffactorau a oedd yn cael eu nodi amlaf fel y rhai pwysig gan ddefnyddwyr preswyl, a gwarantu danfon oedd yn cael ei nodi fel y ffactor pwysig gan amlaf gan fusnesau bach a chanolig. Roedd danfon y diwrnod canlynol yn bwysig i ganran is o ddefnyddwyr preswyl a busnesau bach a chanolig. Wrth ddanfon parseli, gwarantu danfon a phrawf anfon/danfon oedd yn cael eu nodi fel y ffactorau pwysig gan y cyfrannau uchaf o ymatebwyr ym mhob achos. Gweler Adran Pedwar.

Y farchnad llythyrau yn y DU

- 1.11 Yn 2016-17 disgynnodd cyfanswm nifer y llythyrau wedi'u cyfeirio 5%, i 11.7 biliwn o eitemau. Roedd hyn yn gynydd o ran y gyfradd gostwng yn ystod y blynyddoedd diweddar


⁶ Mae targed y PCA yn mynnu bod y Post Brenhinol yn dosbarthu 91.5% o eitemau wedi'u ffrancio a gyda stampiau Dosbarth Cyntaf erbyn y diwrnod gwaith nesaf mewn 118 o ardaloedd cod post.

⁷ Mae'r targed Danfon Arbennig yn mynnu bod y Post Brenhinol yn dosbarthu 99% o'r holl eitemau Danfon Arbennig (y Diwrnod Canlynol) erbyn y diwrnod danfon nesaf.

o tua 4% y flwyddyn. Roedd cyfanswm refeniw y llythyrau wedi’u cyfeirio yn £4.2 biliwn yn 2016-17, gostyngiad o 5% mewn termau real ers y flwyddyn flaenorol. Gweler rhifau 1.1 ac 1.2 isod ac Adran Pump.

Ffigwr 1:1 – Niferoedd Llythyron wedi’u cyfeirio drwy fath o weithredwr


Nifer (miliwn o eitemau)



Ffynhonnell: Daganiadau Ariannol Rheoleiddiol y Post Brenhinol, enillion y gweithredwr i Ofcom, amcangyfrifiadau Ofcom. Oherwydd newidiadau i'r fethodoleg, nid oes modd cymharu'r data cyn 2015-16 i'r data sy'n dilyn y pwynt hwn. Wele Pennod 5 am fanylion llawn yn y fersiwn Saesneg.

Ffigwr 1:2 Llythyron wedi’u cyfeirio drwy fath o weithredwr

Refeniw (£m) yn ôl prisiau Mawrth 2017




Gwasanaethau Post Swmp

- 1.12 Roedd post mynediad (post sy'n cael ei ychwanegu at rwydwaith y Post Brenhinol gan ddarparwyr eraill i'w danfon i'r cwsmeriaid) yn cyfrif am 61% o gyfanswm y llythyrau wedi'u cyfeirio yn 2016-17, sydd wedi codi o 58% yn 2015-16.
- 1.13 Newidiodd y Post Brenhinol brisiau ei gynnyrch adwerthu a phost mynediad yn 2017-18. Ar gyfer cynnyrch adwerthu, roedd y cynnydd mewn prisiau termau real yn 2017-18 yn llai ar gyfartaledd (0.1%) na'r cynnydd mewn prisiau ar gyfer 2016-17 (1.6%), gyda gostyngiad sylweddol mewn pris ar gyfer post Mailmark ail ddsbarth heb eu didoli. Ar gyfer post mynediad, roedd y cynnydd mewn prisiau termau real yn 2017-18 yn is na'r flwyddyn flaenorol, gyda'r cynnydd mewn prisiau ar draws y chwe chynnyrch yn 0.2% ar gyfartaledd, o'i gymharu â'r cynnydd mewn prisiau o 1.1% ar gyfartaledd yn 2016-17. Gweler Adran Pump.

Y farchnad ar gyfer parseli

- 1.14 Gwelwyd cynnydd yng nghyfanswm nifer y parseli cenedlaethol wedi'u mesur yn 2016-17 o 7% i 2.1 biliwn o eitemau a chynyddodd refeniw 3% i £8.7 biliwn, gan arwain at ostyngiad yn refeniw cyfartalog unedau. Mae hyn yn gyson â lefel y gystadleuaeth yn y sector. Roedd cyfradd y twf yn arafach nag yn 2015-16. Gweler ffigur 1.3 isod ac Adran Chwech.

Ffigur 1.3 -Cyfanswm y parseli cenedlaethol wedi'u mesur a refeniw (yn cynnwys rhyngwladol)




Ffynhonnell: Datganiadau'r Gweithredwr i Ofcom (nid yw'n cynnwys niferoedd)

Perfformiad ariannol y Busnes

- 1.15 Disgynnodd maint EBIT y Busnes o ran ei allu i gael cyllid o⁸ 5.0% i 4.6%. Mae hyn y tu allan i'r ystod 5% i 10% rydym yn ystyried sy'n cynrychioli cyfradd enillion masnachol resymol o ran gwasanaeth cyffredinol sy'n gynaliadwy yn ariannol yn y tymor canolig i'r tymor hir (gweler Ffigur 1.4 isod isod).
- 1.16 Er gwaethaf hyn, rydym o'r farn bod y gwasanaeth cyffredinol yn debygol o barhau i fod yn gynaliadwy'n ariannol yn y dyfodol agos. Mae hyn oherwydd nad yw sefyllfa ariannol a metrigau cyflwr ariannol y Grŵp Perthnasol yn dynodi unrhyw faterion cyflwr ariannol yn y tymor byr i ganolig. Fe wnaethom gyrraedd y safbwynt hwn, gan fod cyfradd credyd BBB y Post Brenhinol wedi ei ail gadarnhau yn ddiweddar ac fe basiodd ei brofion cyfamod bancio yn 2016-17.
- 1.17 Hefyd, mae'r heriau sy'n wynebu'r Post Brenhinol yn y sectorau llythyrau a pharseli'n golygu fod ganddo gymhellion cryf i wella ei effeithlonrwydd yn y dyfodol er mwyn parhau i fod yn gynaliadwy'n ariannol. Mae cynnydd parhaus gydag effeithlonrwydd yn debygol o wella proffidoldeb y Busnes a helpu i sicrhau cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol.
- 1.18 Ond, rydym yn cydnabod bod gwahanol sefyllfaoedd negyddol a all effeithio ar gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol. Mae'r risgiau negyddol hyn yn cynnwys effaith gweithredu diwydiannol posib, fforddiadwyedd y cynllun pensiwn, mwy o gystadleuaeth yn y farchnad parseli, a dirywiad economaidd ac yn y farchnad. Byddwn yn dal i fonitro'r datblygiadau hyn yn ofalus. Gweler Adran Saith am ragor o fanylion.

Ffigur 1.4 Maint EBIT y Busnes o ran ei allu i gael cyllid



** Mae maint EBIT 2012-13 yn seiliedig ar 53 wythnos*

⁸ Mae'r Busnes yn rhan o fusnes y Post Brenhinol sy'n gyfrifol am y gwasanaeth cyffredinol.

*Ffynhonnell: Cyfrifon
rheoleiddiol y Post Brenhinol
wedi'u harchwilio a sylwadau
heb eu cyhoeddi gan y Post
Brenhinol. *Mae maint EBIT
2012-13 yn seiliedig ar 53
wythnos*

Effeithlonrwydd y Post Brenhinol

- 1.19 Gostyngodd cyfanswm costau ar gyfer y busnes 0.4% mewn termau real yn 2016-17 (o'i gymharu â 1.6% yn y flwyddyn flaenorol). Ond, mae'r newid hwn mewn costau oherwydd sawl ffactor, gan gynnwys newidiadau mewn nifer yn ogystal ag arbedion effeithlonrwydd. Mae dadansoddiad PVEO yn ffordd ddefnyddiol o fesur effeithlonrwydd gwelliannau drwy nodi Pris, Nifer, Effeithlonrwydd a ffactorau Eraill ar wahân. Mae'n dangos gwelliant sylfaenol mewn effeithlonrwydd (ac eithrio costau trawsnewid) o tua 2.2% yn 2016-17 (o'i gymharu â thua 1.5% yn y flwyddyn flaenorol).
- 1.20 Cwtogodd y Post Brenhinol ar gyfanswm yr oriau gros yr oedd gweithwyr yn eu treulio'n danfon a phrosesu 1.9% yn 2016-17 (ychydig yn is na'r gostyngiad yn y flwyddyn flaenorol). Ond, cynyddodd costau pobl ar gyfartaledd fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn yn ystod y flwyddyn, gyda'r refeniw ar gyfartaledd fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn yn gostwng. Roedd hyn yn golygu bod costau pobl yn cynyddu o'i gymharu â'r refeniw.
- 1.21 Ar y cyfan, mae'r Post Brenhinol wedi gwneud rhai gwelliannau effeithlonrwydd yn 2016-17 a hynny mewn amgylchedd heriol. Rydym yn dal o'r farn bod modd i'r Post Brenhinol wneud rhagor o welliannau effeithlonrwydd yn y dyfodol. Rydym hefyd yn cydnabod bod

Diweddariad monitro blynyddol ar y farchnad bost

amseriad a'r cwmpas ar gyfer rhagor o welliannau mewn perfformiad o gymharu â'r hyn a gyflawnwyd yn 2016-17 yn dibynnu ar natur unrhyw setliad y bydd yn cytuno arno gyda'i weithlu ynghylch ei drefniadau cyflog a phensiynau yn y dyfodol.